

Ysgol I.D. Hooson
Heol Caradog
Rhosllannerchrugog
LL14 2DX
Ffôn: 01978 832950
Ffacs: 01978 832955
e-bost: mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk



YSGOL I.D. HOOSON

Medi 6ed, 2019

Annwyl Rieni/Gofalwyr,

Croeso'n ôl wedi'r gwyliau. Gobeithio eich bod wedi mwynhau y gwyliau haf ac yn barod am flwyddyn arall brysur yn yr ysgol. Hoffwn gyflwyno ychydig o wybodaeth bwysig i chi ar gychwyn y tymor newydd.

Cyswilt gyda'r athrawon dosbarth:

Gallwch e-bostio'r athrawon dosbarth yn uniongyrchol os oes angen. Gallwch wneud hyn ar gyfer newid amseroedd nosweithiau rhieni a.y.y.b. Oherwydd rhesymau amddiffyn data, ni ddylid defnyddio'r e-bost i gyfnewid gwybodaeth gyfrinachol. Isod gwelir cyfeiriad e-bost pob athro. Ni ddylid defnyddio'r system e-bost i wneud cwyn os gwelwch yn dda.

Miss Amy Morris	MorrisA21@hwbcymru.net
Miss Laura Lewis	LewisL109@hwbcymru.net
Miss Bethan Thompson	ThompsonB1@hwbcymru.net
Miss Charlotte Williams	WilliamsC2840@hwbcymru.net
Miss Manon Davies	DaviesM125@hwbcymru.net
Miss Delyth Dempsey	DempseyD1@hwbcymru.net
Miss Catrin Darlington	DarlingtonC7@hwbcymru.net
Mr Dyfan Jones	JonesD106@hwbcymru.net
Mrs Manon Williams	WilliamsM1666@hwbcymru.net
Miss Eiliw Evans	EvansE42@hwbcymru.net
Mr Sion Owen	OwenS19@hwbcymru.net

Cofiwch gysylltu â'r ysgol os ydych yn ansicr o unrhyw beth. Rydym yma i helpu ac rydym wastad yn awyddus i drafod unrhyw faterion a datrys unrhyw broblem er llês y plant.

Yn y lle cyntaf, os oes gennych bryder ynghylch eich plentyn (addysg/ymddygiad ayyb) - cysylltwch â'r **athro/athrawes dosbarth**. Efallai y cewch eich cyfeirio at aelod arall o staff yr ysgol.

Os nad ydych yn hapus gyda'r ymateb - dylech chi gysylltu gyda **Miss Bethan Thompson** (Pennaeth Cyfnod Sylfaen), **Mrs Manon Williams** (Pennaeth Cyfnod Allweddol 2) neu **Mr Dyfan Jones** (Dirprwy Bennaeth).

Os ydych yn parhau i fod yn anfodlon gyda'r ymateb, cysylltwch â **Mr Rhodri Jones** (Pennaeth).

Os ydych chi'n parhau i fod yn anfodlon, dylech gysylltu â **Mr Geraint Phillips**, Cadeirydd Llywodraethwyr yr Ysgol.

Athrawon gyda chyfrifoldebau penodol:

Cydgysylltydd Llês ac Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol yw **Mr Sion Owen**. Mae Mr Owen ar gael i drafod pryderon sydd yn ymwneud a datblygiad a llês eich plentyn, ac i drafod unrhyw gefnogaeth ychwanegol y gallai'r ysgol ei gynnig i'ch plentyn os oes angen. Bydd angen trefnu amser cyfleus ar gyfer unrhyw apwyntiad neu drafodaeth gyda Mr Owen, gan y bydd yn gyfrifol am ddsbarth blwyddyn 5 a 6 am y mwyafswm o'i amserlen wythnosol.

Bydd **Miss Manon Davies**, **Mr Sion Owen** yn chwarae rôl bwysig wrth fonitro presenoldeb a phrydlondeb, ac yn cydweithio gyda Swyddog Llês yr Awdurdod.

Y Gymraeg - Mae'r Gymraeg yn rhan allweddol o fywyd yr ysgol hon, ac mae'n rhoi llawer iawn o bleser i ni fel ysgol yn gweld y disgyblion o oed y meithrin i flwyddyn 6 yn datblygu eu medrau yn yr iaith Gymraeg. Cymraeg yw iaith yr ysgol, ac felly rydym yn annog y plant i wneud defnydd o'r iaith ar bob cyfle posib. Mae hyn yn wir wrth gwrs oddi mewn ac oddi allan i furiau'r ysgol. Rydym wrth ein bodd yn clywed y plant yn siarad ac yn defnyddio'r Gymraeg, a byddwn yn gwneud defnydd o systemau gwobrwyo i ganmol ac i annog y plant ymhellach. Defnyddio'r Gymraeg i gyfathrebu yn yr ysgol yw yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan y plant yn yr ysgol hon, ac felly a fyddech cystal â hybu'r neges hon gyda'ch plant fel rhieni / ofalwyr. Drwy ymarfer a defnydd cyson bydd eu medrau dwyieithrwydd yn datblygu.

Nosweithiau Cwricwlaidd

Cynhelir nosweithiau cwricwlaidd yn ystod trydydd wythnos y tymor. Bydd yn gyfle i gyfarfod gydag athro/awes dosbarth eich plentyn, a derbyn ychydig o wybodaeth am y flwyddyn.

Dydd Llun, Medi 23ain

Meithrin / Derbyn 5.30 p.m. Dwy ieithog

Dydd Mawrth, Medi 24ain

Bl. 5 a 6 5.30 p.m. Dwy ieithog

Dydd Mercher, Medi 25ain

Bl.1 a 2 5.30 p.m. Dwy ieithog

Dydd Iau, Medi 26ain

Bl. 3 a 4 5.30 p.m. Dwy ieithog

Absenoldebau:

Mae presenoldeb uchel yn flaenoriaeth barhaus i'r ysgol. Mae'n allweddol fod eich plentyn yn mynych'r ysgol yn ddyddiol. Gofynnir i chi gysylltu â'r ysgol yn syth ar ddiwrnod cyntaf absenoldeb eich plentyn. **Gofynnwn i chi wneud hyn cyn 9.30 os gwelwch yn dda.** Byddwn yn monitro presenoldeb a phrydlondeb ac mewn cyswllt gyda chi os fydd ffigyrau presenoldeb yn disgyn i lefel annerbyniol a pan fydd yn cychwyn cael effaith negyddol ar gynnydd eich plentyn.

Bydd Pennaeth yr ysgol yn penderfynu os y bydd yr ysgol yn awdurdodi ceisiadau am absenoldeb yn ystod y tymor. Bydd yn ddibynol ar ffigyrau presenoldeb presennol y plentyn yn ogystal â ffigyrau presenoldeb blaenorol. Dylid gwneud unrhyw geisiadau am gael absenoldeb o'r ysgol drwy lythyr i'r Pennaeth. Ni fydd ceisiadau am fwy na 5 diwrnod yn cael ei hawdurdodi. Rydym yn eich annog i wneud pop ymdrech i osgoi trefnu gwyliau yn ystod y tymor ysgol.

Mae hawl gan yr ysgol drwy drafodaethau gyda'r Awdurdod Lleol, gyflwyno Rhybudd Cosb Benodedig o £60 pan fydd presenoldeb yn disgyn i lefel annerbyniol sydd heb ei hawdurdodi.

Clwb Brecwast a Chlwb ar ôl ysgol - Mae clwb brecwast yr ysgol yn cychwyn am 7.55 o'r gloch. Gall y plant fwynhau brecwast syml (cereal, tost, ffrwyth a diod) am ddim. O 7.55 hyd at 8.15, bydd cost o £1 ar gyfer unrhyw un sydd yn bwriadu defnyddio'r clwb brecwast. O 8.15 hyd at 8.30, ni fydd cost. Gofynnwn i'r plant **gyrraedd cyn 8.30** os am gymryd mantais o'r gwasanaeth hwn. Am 8.45 bydd disgyblion CA2 yn ymadael a'r clwb i fynd ar y buarth. Bydd plant y

Cyfnod Sylfaen yn cael ei harwain o'r clwb i'w dosbarth. Nid oes angen hysbysu os ydych am ddefnyddio'r clwb ymlaen llaw, ond bydd angen cwblhau ffurflen gofrestru ar y diwrnod cyntaf.

Mae'r clwb ar ôl ysgol yn rhedeg o 3:15 pm hyd at 5:30 pm. Cost y clwb yw £3.50 o 3:15 to 4:30 p.m. ac yna £3.50 ychwanegol o 4:30 hyd at 5:30 p.m. Bydd y plant yn derbyn byrbryd a diod ac yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol. Ni dderbynnir mwy na 40 o blant yn y clwb ac felly bydd angen trefnu ymlaen llaw am le i'ch plentyn, drwy Miss Lowri Jarvis.

Clybiau/Gweithgareddau ar ôl ysgol - Dyma i chi drefn clybiau ar ôl ysgol a fydd yn cychwyn wythnos nesaf, **sef yr wythnos sydd yn cychwyn ar ddydd Llun y 9fed o Fedi**. Yn y clybiau hyn, byddent yn cael y profiad o sawl chwaraeon gwahanol. Gwneir pob ymdrech i beidio â gohirio'r clybiau. Os oes achos ble bydd angen gohirio, gwneir pob ymdrech i'ch hysbysu mewn digon o amser er mwyn eich galluogi i wneud trefniadau eraill. A fydddech cystal â sicrhau eich bod yn casglu eich plentyn yn brydlon ar ddiwedd y clybiau. Bydd clybiau Cerddoriaeth Creadigol a Dawns yr Urdd yn cychwyn tuag at ddiwedd y mis. Bydd manylion yn dilyn am y clybiau hyn.

Llun	Urdd - Cerddoriaeth Creadigol	Gwybodaeth i ddilyn.
Mawrth	Clwb chwaraeon bechgyn	Bl. 3-6: 3.15 - 4.15 p.m
Mercher	Clwb chwaraeon Merched Clwb Celf yr Urdd	Bl. 3-6: 3.15 - 4.15 p.m Gwybodaeth i ddilyn - Bydd rhaid bod yn aelod o'r Urdd
Iau	Clwb Rhedeg	Bl.3-6: 3.15 - 4.15 p.m
Gwener	Clwb Dawns Creadigol yr Urdd	Gwybodaeth i ddilyn.

Parcio a chyrraedd yr ysgol yn y bore - Ar gychwyn blwyddyn ysgol a thymor newydd, hoffwn eich atgoffa i gymryd gofal a phwyll wrth yrru eich car yn y maes parcio ac i barchu'r rheolau parcio. A fydddech cystal â gwneud pob ymdrech i osgoi parcio ar y gwair, mewn lleoliadau sydd yn gallu achosi anghyfleustra mawr megis ym mhrif fynedfa'r ysgol a hefyd tu allan i dai cymdogion yr ysgol yn ardal Glanrafon. Mae'r ysgol yn parhau i dyfu, ac o ganlyniad mae'r maes parcio yn fwy a mwy prysur. Hefyd a fydddech cystal ag osgoi parcio yn yr ardal gollwng/drop-off, gan fod hyn yn amharu ar rediad y traffig. Hoffwn eich annog i ddefnyddio'r man gollwng i ollwng eich plentyn, **a cheisio ymadael a'r maes parcio a champws yr ysgol unwaith y bydd eich plentyn wedi cyrraedd yr ysgol**. Cofiwch y gallwch wneud defnydd o'r clwb brechwast fel y nodwyd.

Bydd y staff yn parcio yn y manau pellaf o'r ysgol, ac felly bydd posib parcio dwbl am gyfnod byr yn y manau hyn os oes angen. Opsiwn arall fyddai i barcio yn y maes parcio ar Bonc Wen a cherdded ychydig i'r ysgol.

Hysbysiad preifatrwydd - Mae hysbysiad preifatrwydd yr ysgol wedi ei arddangos ar wefan yr ysgol. A fydddech cystal â sicrhau eich bod wedi ei ddarllen ac yn ymwybodol o'r cynnwys.

Beicio i'r ysgol - Mae'n braf gweld nifer o ddisgyblion yn beicio i'r ysgol. Er hyn, hoffwn eich annog i sicrhau fod eich plentyn yn gwisgo helmed ddiogelwch addas.

Cŵn - Hoffwn eich atgoffa, oherwydd resymau iechyd a diogelwch, nad oes caniatad i gŵn ddod ar gampws yr ysgol. Diolch am eich cyd-weithrediad.

ALDI - Mae'r ysgol yn cefnogi rhaglen ysgolion gan Aldi, sydd yn rhoi cyfle i ysgolion ennill adnoddau addysg gorfforol a swm o £20,000. I'r rhai ohonoch fydd yn siopa yn Aldi, a fydddech cystal ag anfon unrhyw sticeri a roddir i chi yn rhan o'r ymgyrch hon, gyda eich plentyn i'r ysgol, gan eu cyflwyno i'r athro/awes dosbarth. Y targed yw casglu 300 o sticeri. Diolch

Gwisg Ysgol - Mae'n braf gweld y plant i gyd yn edrych mor daclus yn ei gwisg ysgol ar gychwyn y flwyddyn. Diolch i chi am eich cydweithrediad wrth sicrhau fod y plant yn gwisgo'r wisg gywir, yn ogystal ag esgidiau du, fel yr hysbyswyd ar ddiwedd y tymor diwethaf. Gawn ni eich atgoffa mai cwmni **RAM Leisure** yn unig sydd yn gwerthu ein gwisg ysgol. Eu cyfeiriad yw **Trinity House, Whitegate Industrial Estate, Whitegate Rd, Wrecsam LL13 8UG**. Eu rhif ffôn yw **01978 360360**. Gallwch archebu ar eu gwefan www.ourschoolwear.co.uk. Cliciwch ar 'junior schools' a gallwch weld bathodyn yr ysgol. Byddech yn cael eich cyfeirio at y dudalen berthnasol. Cofiwch labelu dillad eich plentyn, gan gynnwys esgidiau.

Gair hefyd i'ch atgoffa fod eich plentyn angen gwisg addysg gorfforol addas ar gyfer sesiynau wythnosol. Gofynnwn i'r plant wisgo siorts glas/'navy' a chrys T/polo glas/'navy' ar gyfer y sesiynau hyn. Gall y plant wisgo crys polo glas yr ysgol pe dymunir ar gyfer y sesiynau hyn.

Mae llawer o ddillad ysgol yn cael ei gadael ar ôl yn yr ysgol ar ddiwedd pob wythnos a thymor. A fyddech cystal â sicrhau fod enw eich plentyn wedi ei farcio yn glir ar bob dilledyn ac esgid os gwelwch yn dda.

Schoop - Cofiwch eich bod yn diweddarau manylion ar Schoop os oes angen er mwyn derbyn y wybodaeth gywir am ddigwyddiadau a llythyrau. Wrth i ni anelu at leihau'r defnydd o bapur yn yr ysgol, bydd angen i bob rhiant / gofalwr sicrhau eu bod wedi cofrestru gyda schoop, gan y bydd yn cael ei ddefnyddio i'ch hysbysu am lythyrau a fydd yn cael eu harddangos ar wefan yr ysgol yn achlysurol, yn hytrach na anfon fel copïau papur. Cofiwch hefyd am wefan yr ysgol sydd yn cynnwys ychydig o wybodaeth am yr ysgol (<http://ysgolidhooson.cymru>) Yn ogystal â hyn mae'r ysgol hefyd ar trydar, sydd i'w weld drwy wefan yr ysgol.

Byrbryd Bore - Byddwn yn cynnig byrbryd bwyd bore i ddisgyblion o'r dosbarth meithrin i flwyddyn 6. Gofynnwn yn garedig i ddisgyblion y Meithrin a'r Derbyn, blwyddyn 1 a 2 i dalu am eu ffrwythau (bwyd bore) am yr hanner tymor llawn. Gofynnwn i chi dalu £7 am yr hanner tymor yma yn ystod wythnos nesaf, gan y bydd yn arbed amser ac yn hwyluso trefniadau casglu arian. Bydd byrbryd hefyd yn cael ei gynnig i ddisgyblion blyneddoddedd 3,4,5 a 6, am gost o 20c y dydd (£1 yr wythnos). **Fel rhan o gynllun ysgolion iach yr Awdurdod, rydym yn annog y plant i fwyta'n iach gan ddod a byrbryd iachus ar gyfer amseroedd egwyl, ac felly os yw eich plentyn am ddod a byrbryd ei hunain, gofynnwn i'r plant beidio â dod a chreision, siocled a fferins fel byrbryd, yn ogystal â diodydd melys a pop.**

Dod ag arian i'r ysgol - Pan fydd angen i'r plant ddod ag arian i'r ysgol ar gyfer unrhyw weithgaredd, a fyddech cystal a rhoi yr arian mewn amlen wedi ei labelu yn glir, gan ei gyflwyno i'r **athrawon dosbarth**. Diolch.

Cinio Ysgol - Pris cinio ysgol yw **£2.35 (Cyfnod Sylfaen) a £2.40 (Bl. 3/4/5 a 6)**. **COFIWCH** ni fydd yn bosib cynnig cinio i unrhyw blentyn sydd yn ddyledus o gyfnod o ddiwrnod. A fyddech cystal â sicrhau nad yw'r sefyllfa yma yn codi.

Cofnod manylion personol - PWYSIG IAWN

A fyddech cystal â chwblhau y ffurflenni gwybodaeth, fel y gallwn ddiweddarau ein cofnodion yn yr ysgol. Dylid dychwelyd i'r athro/awes ddosbarth erbyn **dydd Mercher Medi 11eg**. (1. **caniatâd** tynnu llun, 2. trefniadau diwedd dydd, 3. **caniatâd** ymweliadau, 4. taflen wybodaeth)

Diogelwch o fewn yr adeilad - Yn amlwg mae diogelwch bob amser yn flaenoriaeth yn yr ysgol. Hoffwn eich atgoffa o drefniadau mynediad i rieni a gofalwyr i'r adeilad. Os oes angen cael mynediad i'r adeilad am unrhyw reswm, dylid mynd at y dderbynfa yn gyntaf i egluro'r rheswm dros fod angen dod i'r adeilad. **Bydd angen caniatâd cyn gallu cael mynediad i'r prif adeilad.**

Diolch am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth.

Rhodri Jones
Pennaeth